POPI

Bl 8

Adran A

<u>Paid edrych yn ôl</u>

Deffrodd Morwenna'n gynnar. Nid oedd wedi cysgu'n dda gan nad oedd yn gallu peidio â phoeni am y diwrnod o'i blaen. Un ar ddeg oed oedd hi, felly am y tro cyntaf roedd ei henw'n gallu cael ei ddewis ar gyfer y gemau – yr un gemau a laddodd ei mam annwyl. Gwisgodd ei dillad mwyaf arbennig, gan fod rhaid iddi edrych yn dda gerbron y Gyfraith, a greodd y gemau fel ffordd greulon o gael adloniant. Erbyn hyn roedd ei thad wedi deffro hefyd. Er ei fod yn edrych yn gas, dyn caredig iawn oedd tad Morwenna, ac roedd wedi dysgu llawer iddi – megis pa blanhigion a allai ei gwella a sut i ddefnyddio cleddyf. Pan oedd pawb yn barod, aethant i'r neuadd fawr, lle roedd miloedd o bobl yn aros yn amyneddgar. Dewiswyd saith person: Bryn, Efa, Sali, Jac, Merridith, Fflyr, ac yn olaf, Morwenna. Ni allai anadlu pan alwyd ei henw ar draws y neuadd. Cerddodd i fyny'r grisiau yn sigledig, ac yn sydyn daeth popeth yn ddu a gwyn. Deffrodd mewn stafell wen, yn gwisgo rhyw fath o siwt ddynol. Edrychodd Morwenna o'i chwmpas a gwelodd y chwe chwaraewr arall. Wrth i'r goleuadau yn y stafell wen fflachio unwaith, diflannodd y llawr o dan eu traed. Teimlodd Morwenna'r aer yn rhwygo heibio iddi cyn iddi daro ar dir caled. Pan agorodd ei llygaid, nid oedd stafell wen o'i chwmpas mwyach; roedd hi mewn mael enfawr gyda  waliau uchel, llwyd, yn ymestyn i'r awyr fel cysgodion cerrig.  Yna daeth y llais, yn dawel ac yn agos at ei chlust: "Rhedwch." Dechreuodd y waliau symud, araf i ddechrau – sŵn carreg yn malu, y llwybrau'n newid, y map yn diflannu cyn iddo fodoli. Yna daeth sŵn arall: sŵn crafu, fel ewinedd hir yn llusgo ar hyd y wal. Nid oeddent ar eu pennau eu hunain. Rhedodd Morwenna i lawr un llwybr cul. Clywodd sgrech yn y pellter – Sali. Torrodd y sgrech yn sydyn, fel petai wedi ei dorri gan gyllell. Stopiodd Morwenna; na, pe bai hi'n rhedeg at y sŵn, gallai fod yn fagl. Cofiodd eiriau ei thad: Nid y creadur sy'n dy ladd di bob tro. Ofn sy'n gwneud hynny. Anadlodd yn ddwfn unwaith, ddwywaith, a gwelodd rywbeth ar y wal o'i blaen: cysgod, ond nid oedd dim yn sefyll rhyngddi a'r wal. Symudodd y cysgod eto – yn hir, yn annaturiol, gyda breichiau rhy hir a phen yn gogwyddo ar ongl anghywir. Yna daeth y crafu eto, yn nes, yn araf, fel petai'n gwybod nad oedd angen rhuthro. Trodd ei phen yn sydyn; roedd llwybr cul y tu ôl iddi, yn dywyllach na'r lleill. "Dere ataf i." Ni symudodd. Roedd hyn yn rhan o'r gêm, ond roedd y llais mor gywir, mor dyner. Cymerodd gam yn ôl a sylweddolodd y marciau ar y llawr – crafiadau dwfn, fel petai rhywbeth trwm wedi ei lusgo ar hyd y llwybr, ac ar ddiwedd y marciau hynny, darn o frethyn o liw dillad Sali. Roedd y mael'n newid eto, y waliau'n cau'n araf; roedd y pethau yn dod yn nes. Cododd ei phen. "Dw i ddim yn

chwarae," meddai'n dawel. Am eiliad stopiodd y crafu, fel petai rhywbeth yn gwrando, ac yna chwerthin, yn dod o bob cyfeiriad Rhedodd Morwenna mor gyflym ag y gallai ei thraed ei chario. Nid oedd hi'n edrych i ble'r oedd hi'n mynd, ond doedd hi ddim yn poeni — dim ond dianc rhag y creadur oedd hi eisiau. Yn sydyn, tarodd i mewn i rywbeth a chwympodd i'r llawr fel sach o datws. Fflyr oedd yno, yn edrych yr un mor ofnus â Morwenna ei hun. Am eiliad, syllodd y ddwy ar ei gilydd fel pe baent yn siarad trwy eu llygaid. "Dere gyda fi," meddai Fflyr yn dawel. "Dw i wedi darganfod lle da i guddio." Nid oedd Morwenna yn ymddiried ynddi'n llwyr, ond roedd hynny'n swnio'n llawer gwell na rhedeg yn wyllt drwy'r tywyllwch. Felly dilynodd hi Fflyr nes iddynt gyrraedd ogof fach yng nghanol y wal, wedi ei gorchuddio gan fwyar duon. Aeth Fflyr yn syth i gysgu, ond cymerodd dipyn o amser i Morwenna ymlacio. Edrychodd i fyny at y sêr, gan feddwl tybed a oedd ei thad yn gweld yr un rhai. O'r diwedd, cwympodd Morwenna i gwsg hamddenol... Deffrodd Morwenna am ei bod wedi teimlo rhywbeth yn brwshio yn ei herbyn, ond nid ceradur oedd o — dim ond planhigion. Dros y nos, roedd y llawr wedi cael ei orchuddio â blodau a mwsog o bob lliw dan haul. Ond nid yn unig y llawr oedd wedi newid; roedd y mael cyfan wedi ei orchuddio. Wrth i'r ddau gerdded o gwmpas, gwelodd Morwenna craciau yn y waliau. Roedd y llwybrau'n edrych yn fwy cul nag erioed, a'i olion traed wedi diflannu'n llwyr o'r mwd. Sylwodd Fflyr ar hyn hefyd, ond nid oedd hi'n poeni llawer am y planhigion eto, gan ei fod dal yn aros i'r creadur ddod yn ôl. Wrth iddynt archwilio'r mael, darganfuwyd y ddwy berson arall mewn ogof fawr. Roedd y chwarewyr eraill i gyd wedi dod at ei gilydd i helpu ei gilydd i oroesi yn y gemau hyll hyn. Wrth i'r dydd fynd yn ei flaen, aros y chwarewyr i'w gilydd ac adael yr ogof, roedd nifer y chwarewyr wedi lleihau'n sylweddol. Nid oedd neb yn sylwi ar hyn tan i Efa bwysau'n erbyn un o'r waliau — ac o'r craciau daeth gwreiddiau'n ymledu, gan ei thynnu hi i mewn i'r wal. Er i bawb geisio ei hachub, roedd hi'n rhy hwyr — diflannodd Efa. Ar ôl hyn, sylweddolodd pawb fod Bryn a Merredith ar goll hefyd. Felly dim ond Morwenna, Fflyr a Jac oedd ar ôl. Eisteddodd y tri ar y llawr gwlyb a chal, gyda dawelwch truenus arnynt; doedd neb yn siarad ar ôl y sioc o golli pawb. Roeddynt wedi drysu'n llwyr am sut i adael y mael heb risg marwolaeth neu gael eu dal gan y planhigion. "Nid mael wedi'i adeiladu yw hwn... mae'n byw," meddai Jac o'r diwedd. Roedd y brawddeg honno wedi llenwi Morwenna â gofid dwfn. Nid oedd hi'n hollol siŵr beth oedd y mael, ond roedd hi'n gwybod un peth — nid oedd o'n ei licio. Roedd Morwenna wedi cael llond bol o eistedd yn llonydd, felly aeth i archwilio'r ardal lle'r oedd Efa wedi diflannu. Roedd y wal yn edrych fel croen yn gwella ar ôl clwyf, yn cau'n araf o'i blaen. Nid oedd Morwenna yn gallu esbonio pam roedd hi'n ei gweld hi felly penderfynodd aros yn dawel. Edrychodd hi ar y llawr a sylwodd fod y gwreiddiau'n curo fel calon, yn pylsu'n araf o dan y pridd. Rhoddodd hyn deimlad annifyr iawn iddi, ac atgoffodd hi o'r hyn a ddywedodd Jac. Cyn iddi gael cyfle i siarad, dechreuodd Fflur besychu. Roedd arogl melys yn llenwi'r aer — nid melyster neis fel siocled, ond rhywbeth trwm ac anghywir. Sylwodd Jac

fod y dail ar y llawr yn symud, yn llithro'n araf tuag atynt. Daeth yr aer yn dew ac yn drwm. Roedd modd clywed pawb yn anadlu'n ddyfnach ac yn gyflymach. Teimlodd Morwenna fel petai rhywun yn sefyll ar ei hysgafnau, yn gwasgu'r anadl allan ohoni. Edrychodd y tri ar ei gilydd, ofn yn llenwi eu llygaid. Yn sydyn, syllodd Fflur i'r pellter. "Dŵr..." sibrydodd hi. Roedd pwll mawr o ddŵr clir o'i blaen. Heb feddwl, dechreuodd redeg tuag ato mor gyflym ag y gallai. Doedd hi heb weld dŵr ffres ers amser maith, ac roedd hi'n ysu am ddiod. Roedd Morwenna yn gweiddi ar ei hôl, wedi drysu'n llwyr — pam roedd Fflur yn rhedeg at ddim byd? Ond nid oedd Fflur yn ei chlywed. Yn sydyn, saethodd gwreiddiau allan o'r llawr, yn lapio o amgylch yn gyflym. Ceisiodd hi sgrechian, ond ni ddaeth sŵn allan o'i cheg. Yna — blodau. Miloedd a miloedd o flodau, o bob lliw dan haul, yn dod allan oi cheg. Mewn eiliad, suddodd i mewn i'r ddaear. Yr unig beth a adawyd ar ôl oedd ei mwclis, gyda rhosyn bach yn gorwedd arno. Roedd Morwenna a Jac yn eistedd ar y llawr gwlyb, eu corff yn teimlo'n oer, y gwreiddiau'n pylsu'n araf o dan eu croen. Roedd pawb a gollwyd yn teimlo'n bell, ond roedd y tawelwch yma'n wahanol — tawelwch rhyfedd, fel petai'r mael yn aros yn dawel, yn eu cyfyngu'n araf. Roedd Morwenna'n edrych ar Jac, a'i llygaid yn llawn deallusrwydd ac ofn tawel. "Paid â edrych yn ôl," meddai hi'n dawel, fel cyfarwyddyd a rhybudd ar yr un pryd. Cymerodd Jac ei law, a gwybododd fod hynny'n y ffordd gywir. Nid oedd angen geiriau eraill. Eisteddasant gyda'i gilydd, yn derbyn yr hyn nad oedd modd ei newid. Yn araf, roedd y gwreiddiau'n amgylchynu eu corff, yn tynnu'r ddau i lawr. Pan ddychwelodd y tawelwch i'r ogof, roedd dau flodyn newydd yn sefyll ochr yn ochr, yn tyfu'n dawel o'r lle yr oedd Morwenna a Jac wedi mynd.